

Cymdeithas Edward Llwyd

Cylchlythyr Rhif 2

www.llenNatur.com

Gwefan i Naturiaethwyr a Phobl Cymru

Golygydd: Duncan Brown, Cysodi: Ifor Williams, ychwanegwch ddeunydd i - llennatur@yahoo.co.uk

Rasus Ceiliogod a Dydd Mawrth Crempog



Yn ei gyfrol ddiweddar "Tro drwy'r Tymhorau", meddai Twm Elias am Ddydd Mawrth yr Ynyd, neu Ddiwrnod Crempog:

"dyma'r cyfle olaf am dipyn o hwyl cyn ymryd y Grawys. Arferid ymladd ceiliogod a chwarae pel-droed....."

Mi ganodd hwn gloch i mi. Rhwng 1632 ac 1636 cofnododd Robert Bulkeley, Dronwy, Llanfachraeth, Ynys Mon ei fod wedi ymhel ag ymladd ceiliogod chwe gwaith. Dyma'i gofnodion, mewn italigau - a sylwch mai'r calendr Jiwliaidd a ddilynai Robert:

9 Chwe 1632 (1631 iddo fo), dydd iau: *...ye Cockfight at llanllibio..fa:*

Roedd ei sylwadau yn dueddol o fod mewn iaith a oedd wedi ei thalfyrri.- e.e. mae *fa* yn golygu *fair* (tywydd). Y14eg Chwefror oedd dyddiad Dydd Mawrth Ynyd y flwyddyn honno, pum niwrnod ar ôl yr Ymryson,

28 Chwe 1633 (1632 iddo fo), dydd iau: *J went to cocke fight at llanvaythly J sp. 7d, J pd. 4d cockepence and bestowed 6d on the woman of the howse, who doth give the schollers drinke....*

Roedd Robert yn mwynhau ei hap chwarae, ac roedd hefyd yn ddyn gonest ac yn biler ei gymdeithas. Ai cockpence oedd ei air am y bet? Yn yr ysgol leol y cynhaliwyd yr ymladdfa geiliogod yn ôl cofnod 5ed Chwefror 1635 (isod).

Cyfrannodd Robert 6d at gost cynnal yr Ymryson i rhyw fath o ofalwraig yn yr ysgol a oedd yn darparu diodydd i'r *schollers*. Bu Dydd Mawrth Ynyd ar 5ed Mawrth y flwyddyn honno, eto, pum niwrnod ar ôl yr ymryson.

13 Chwe 1634 (1633 iddo fo) dydd Iau: *J was at a cock-fight in Llanvaythlu...home by sunset, J went a waselinge to Hugh Bowen...very fa...*

Ar 18ed Chwefror y digwyddodd Dydd Mawrth Ynyd y flwyddyn honno, eto, pum niwrnod ar ôl yr Ymryson. Roedd yn gyfnod o waseilo hefyd a chafwyd amryw gofnodion ohonno yn mwynhau'r rhialtwch ar wahanol adegau o'r flwyddyn.

5 Chwe 1635 (1634 iddo fo) dydd Iau: *J went to ye cockfight at Llanvaythly schoole ...very wette & great floude*

Aeth i ymladd ei geiliog yn Ysgol Llanfaethlu trwy dywydd glawog a llifogydd. Meddylwch gynnal ymladdfa geilogod yn yr ysgol leol heddiw - yr ysgol yng nghalon y gymuned 'ta be!. Y 10 Chwefror y digwyddodd Dydd Mawrth Ynyd y flwyddyn honno, eto, pum niwrnod ar ôl yr Ymryson.

23 Chwe 1636 (1635 iddo fo), dydd Mawrth: *vesp. J rid to the cock-fight at Llanddeyst ...windy*

Aeth i'r ymryson yn Llanddeusant gyda'r nos (*vespi*) ar gefn ei geffyl mewn tywydd gwyntog. Hwn oedd yr unig ymryson nas cynhaliwyd hi ar ddydd Iau, a'r unig un hefyd a oedd 7 niwrnod yn hytrach na phump o flaen Dydd Mawrth Ynyd a ddigwyddai y flwyddyn hon ar 1 Mawrth...ond hwn oedd yr eithriad a roes brawf ar y rheol...

25 Chwe 1636 dydd Sadwrn: *ye cockfight in Llanvoorog ...fa* ...mynychodd un arall ar y 25 Chwefror yr un flwyddyn ac felly cadw at y patrwm yn berffaith. Beth bynnag oedd yn arbennig am ddydd Iau, bum niwrnod cyn diwrnod Dydd Mawrth Ynyd - sef ein diwrnod crempogau - mae'n ddirgelwch i mi. Gwlad arall, ydi'r gorffennol...

BONES OF STARLING FOUND IN A ROMAN URN.

Last summer (1923) Mr. Whiting of Magna Castra Farm, near Hereford, disturbed a Roman burial. Among the charred bones were two small urns about six inches high...and inside it were a number of bird-bones. The bones... were pronounced by Dr. P.R. Lowe to be those of a Starling. **Near the same place are a great number of birds' leg-bones which have been identified as those of domestic fowls, and it is curious that all these bones are cocks', the spur remaining on each one.** H. A. GILBERT. British Birds 1924

Hanes y Calendrau

Cafodd y Calendr Jiwliaidd ei sefydlu yn 45CC pan benderfynnodd yr Ymerawdwr Rhufeinig Julius Caesar ychwanegu dau fis at yr hen flwyddyn o ddeg mis, sef Ionawr a Chwefror. Sylwch mai atgof o'r calendr cyn-Rufeinig yw NOVember y NAWfed mis, nid yr unfed mis ar ddeg. Yn yr un modd, y DEGfed mis, nid y deuddegfed, oedd DECember. Newidiodd y Pab Gregori XIII y calendr eto yn y gwledydd pabyddol? ar y 4 Hydref 1582 pan ddileodd 10 diwrnod o'r flwyddyn honno. Gwnaed hyn i gywiro'r llithro a fu yn y tymhorau megis dyddiad Cyhydros y Gwanwyn a oedd erbyn hynny wedi disgyn yn ôl i 10 Mawrth o dan yr hen Galendr Juliaidd. Y Calendr Gregoraidd hwn sydd yn cael ei ddefnyddio drwy wledydd datblygedig y byd heddiw.

Ond i ni yng Nghymru a Lloegr (neu yn Lloegr a Chymru efallai yn yr achos yma gan nad oeddem â llawer o ddweud yn y mater!) mae'r stori dipyn bach yn wahanol. Oherwydd gelyniaeth ffyrnig Lloegr i unrhyw beth pabyddol, ni chafodd y Calendr Jiwliaidd ei newid o gwbl yr adeg honno ac aeth Lloegr a Chymru eu ffordd geidwadol eu hunain. Erbyn y ddeunawfed ganrif bu'n rhaid cydymffurfio gan fod diffygion y Calendr Jiwliaidd wedi cynyddu yn fwy fyth, ac erbyn hynny roedd yr hen elyniaeth rhwng yr eglwysi yn llai a'r gwahaniaeth yn y calendrau yn gael ei ystyried fel tramgwydd cynyddol i fasnach rhyngwladol. Roedd y newid yma yn anochel, ac ar 2 Medi 1752, penderfynnodd senedd Prydain gywiro'r gwall trwy ollwng 12 diwrnod o'r flwyddyn honno i gydymffurfio â'r calendr Gregoraidd. Roedd y calendr am fis Medi y flwyddyn honno felly yn rhedeg Medi 1, 2, 14, 15 ayyb. Roedd y bobl gyffredin wedi dychryn am hyn gan feddwl eu bod wedi colli pythefnos allan o'u bywydau. "Rhowch i ni yn ôl ein dyddiau coll" oedd y gri yma yng Nghymru"! Derbynydd y newid yn swyddogol ond "dygwyd" y 12 diwrnod yn ôl gan y werin trwy ohirio gwyliau'r Seintiau, ffeiriaua dathliadau eraill. Dyma pam mae gennym Calan Mai Fai 1af a'r hen ffeiriaua C'lanmai o gwmpas y 12ed. ayyb.


Beth felly yw oblygiadau hyn wrth geisio amseru digwyddiadau yng Nghymru a Lloegr i'r diwrnod?

- Yn y blynyddoedd cyn 1752 cofnodir y cyfnod o 1 Ionawr i'r 24 Mawrth yng Nghymru a Lloegr fel petae o'n perthyn i'r flwyddyn flaenorol.. Er engraifft, fe welwn lythyr gan WM (Morrisiaid Môn) at ei frawd wedi ei ddyddio fel 13th March 1740 a'r nesaf, dair wythnos yn ddiweddarach, wedi ei ddyddio fel 6 April 1741. Byddai'r un dyddiadau yng ngweddill gorllewin Ewrop, gan gynnwys yr Alban, ill dau yn cyfeirio at y flwyddyn honno fel 1741.
- Yn aml, nid oes modd ymddiried yn nyddiadau tri mis cyntaf y flwyddyn mewn cofnodion hanesyddol yn y blynyddoedd o bobtu'r newid yn 1752 (Morrisiaid Mon yn eithriadau anrhydeddus!) gan nad oedd pawb yn datgan i ba system roeddynt yn bleidiol iddi.

Dolen defnyddiol:

<http://homepages.tesco.net/~jk.calisto/calisto/index.htm>

Cyfaill Pluog Carreg Hyllidrem



Ychydig cyn naw o'r gloch, nos Iau, fe ddaeth 'na alwad ffôn. Roedd y cyfaill pluog uchod wedi bod yn swatio ar frigyn llyisiau'r cythraul ger Pont Garreg Hyllidrem er 7.15 (o leiaf) y noson honno. Mawr ddiolch i Emlyn a John am ffonio - John oedd wedi' weld o gyntaf, wrth fynd a'r ci am dro. Yn rhyfeddol, roedd yr aderyn

yn dal yno pan ês i yno i dynnu'r llun 'ma tua pum munud i naw. Rhwng y canfod cyntaf a hynny, roedd yr hogia wedi bod adref i nol camerau a dychwelyd.

Pan welis i o, roedd yr aderyn yn hollol effro, yn edrych o'i gwmpas, a hollol ddi-gyffro hefyd. Mi ges inna gyfle i dynnu'r llun uchod a ryw 4-5 arall cyn i'r aderyn ddiiflannu i'r tywyllwch. I'r sawl sydd ddim yn gyfarwydd a'r ardal, mae y bont ryw hanner milltir neu fwy o bentref bychan Tan y Lan ac ymhell o gyrraedd y goleuadau stryd. O edrych tros wal y bont, roedd yr aderyn ryw bedair troedfedd oddi tanom ni, a rywbeth tebyg uwchben y dwr. Ochr 'isa' y bont oedd hyn - a'r lli byrlymus (ar ôl glaw trwm dydd Mercher) yn dod allan dan y bont ar ei hynt i lawr i afon Dylif ac, yn honno, i'r Glaslyn.

Gyda llaw - tydi'r lliwia yn y llun ddim yn berffaith, mi wn - 'doedd fflach gwantan fy nghamera i ddim yn ddigon cryf i oleuo'r aderyn, ac yng ngoleuni lamp John y tynnwyd y llun mewn gwirionedd.

Roedd hi yn rhy dywyll (naw o'r gloch nos yn Ionawr oedd hi, wedi'r cyfan) i'r aderyn fedru gweld i mewn i'r dwr. 'Sgwn i, felly, be oedd o'n 'i wneud yno - clwydo heb gysgod? Gorffwys ar ôl ryw antur?

Aled Jones Galwad Cynnar.

Perci Penfro

Mae Menter Iaith Sir Benfro ar fin ail-lawnsio cynllun arloesol i gasglu a chofnodi'r hen enwau ar gaeau - neu berci - yn Sir Benfro dan fanner parneriaeth amgylcheddol / diwylliannol OGAM.

Gyda'r newidiadau chwyldroadol sydd yn gweddnewid ein cefngwlad, mae perygl gwirioneddol y bydd y cyfoeth o enwau a drosglwyddwyd o genhedlaeth i genhedlaeth yn mynd i ddifancoll. Maent yn bwysig nid yn unig o safbwynt hanesyddol ond hefyd i warchodwyr gan fod cyfran helaeth o'r enwau yn ddisgrifiadol. Eisioes casglwyd nifer sylweddol o enwau led led y sir gan berchnogion tir a gwirfoddolwyr brwd.

Fel rhan o'r bartneriaeth, mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro wedi bod yn cofnodi'r enwau ar system mapio digidol ac mae Menter Iaith Sir Benfro wedi cyflwyno cais am adnoddau ychwanegol i ddatblygu'r elfen hon o'r prosiect. Y gobaith yw y meddir trosglwyddo'r wybodaeth i safleoedd lle gall pawb ei gweld a'i hastudio.

Geraint Halcyn Jones (Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro)


Mi fydd cyfle ar wefan Llên Natur i gofnodi enwau o'r math, ac i gydweithio'n agos â Pherci Penfro

Tywydd garw a Llongdrylliadau'r 19 G.

1^{af} Chwefror 1884 Woodbine, Grigan, Horatio a'r Missouri
9^{fed} Rhagfyr 1886 Avondale, Dagmar a'r Pegasus yn ardal Caergybi

16 o Longdrylliadau noson y
suddwyd y Royal Charter
25-26 Hydref 1859

Amrywiaeth o longdrylliadau rhwng
1806 a 1890



6 o Longdrylliadau
13^{eg} o Ionawr 1843.
Elizabeth [1a],
Water Lilly [2a],
Margareta [3a],
Bertholly [4a],
Victoria [5a] a'r
Edwin [6a]

Shipwrecks of North Wales Ivor Wyn Jones a ffynnonellau eraill

1817 Ynys Seiriol [1] Cafodd llong o Brwsia ei dryllio ar yr ynys gan ryddhau llygod mawr.

1847 Llandudno, Clawdd Gored [2] (lleoliad y Grand Hotel heddiw) Cafodd yr *Archiduco Palatino* ei hyrddio yn erbyn clogwyn o'r enw Clawdd y Gorad, digwyddiad sydd wedi ei serio ar gof hen bobl Llandudno fel dryllio Llong yr India Corn. Profodd y cargo o india corn yn ormod o demtasiwn i'r bobl cargo ac fe gofir y digwyddiad fel Y Diarddel Mawr oherwydd rhan honedig y Methodistiaid Wesleaid yn yr ysbeilio!

Ar ddiwrnod y Nadolig 1806 [3] dymchwelodd cwch fferi Conwy tra'n cario'r Irish Mail a cholodd tua dwsin o bobl eu bywyd.

Noson 25-26 hydref 1859 (mewn coch ar y map)
Y *Royal Charter*, *Messenger*, *Jane*, *Alma*, *Duchess of Gloucester*, *Sylph*, *Alice*, *Queen Elizabeth* a'r *Eagles*

5^{ed} Awst 1820 [4] Drylliwyd cwch o Fôn rhwng Moelydon a Chaernarfon ar ei ffordd i farchnad Caernarfon. Collodd 24 eu bywyd, ac fe achubwyd un Hugh Williams.

1^{af} Ionawr 1824 [5] Hornby Cave y Great Orme

17^{eg} Awst 1831 Bae Biwmares [6] Drylliad llong y *Rothsay Castle* ar y Dutchman's Bank. Yn fuan ar ôl gadael Lerpwl dechreuodd y gwynt chwythu o'r gog orllewin ...ni achubwyd ond 23 o bersonau allan o 150 oedd ar fwrdd y llong...cafwyd cyrrff llawer yn Aber, Llanfairfechan etc

6^{ed} Ionawr 1839 [7] Point Leinws; [8] *Lockwoods*, Pen y Gogarth; [9] *St Andrew*, Y Rhyl.

20^{fed} Gorff. 1845 [10] *Glendower*, Porthmadog

16^{eg} Ionawr 1854 [11] *John O'Gaunt*, Trearddur Bay

26^{af} Ionawr 1854 [12] *Harry Furlong*, Gogledd Môn

18^{fed} Hydref 1858 [13] Ynys St Tudwal - Anfarwolwyd yr *Ann* fel Fflat Hugh Pugh (y Capten) ar ôl mynd i drafferthion wrth gario llwyth o goed i'r Bermo:

"*Fflat Huw Puw yn hwylio, Dafydd Jones yn rhifio, Huw Puw wrth y llyw, Yn gweiddi Duw a'n helpo*".

Hwn yw'r unig bennyl o'r gân wreiddiol i oresi (Ivor Wynne Jones Shipwrecks of North Wales)

14^{eg} Ionawr 1865 [14] *Lelia*, Rhyl;

24^{af} Chwefror 1880 [15] *Resurgam*, Pen y Gogarth.

13^{eg} Hydref 1881 [16] *Cyprian*, Bae Caernarfon

10^{eg} Chwefror 1889 [17] *Enterprise*, Penrhos Caergybi

11^{eg} Tachwedd 1893 [18] *Ivanhoe*, West Shore, Llandudno

8^{ed} Hydref 1896 [19] *Lady Agnes*, Palas yr Esgob, Pen y Gogarth.

1^{af} Chwefror 1892 [20] *Abbey* a'r *Agnes*, Bae Llandudno.

7^{fed} Tachwedd 1890 [21] *Planet* a'r *Saron*

Llongdrylliadau ym Mhrydain y gaef hwn

Llong nwyddau yr *Horncliff* yn mynd i drafferthion ger ynysoedd y Scilly ar y 1 Chwefror 2008. Cafodd ei tharo gan don enfawr mewn storm nerth 10. Anafwyd y capten yn ddrwg ond fe'i achubwyd y diwrnod wedyn.

Llong y *Riverdance* yn bwrw ei llwyth o filoedd o fisgedi ger Blackpool yn yr un storm ar y 31 o Ionawr. Symudodd ei llwyth ar ôl cael ei tharo gan don enfawr.

Corn carw'r môr: y planhigyn *Crithmum maritimum*.
16g (sampere, sampiere) - Ffrangeg (herbe de) Saint Pierre.



EDGAR yn y ddrama King Lear pan syllai i lawr clogwyni gwyn Dover...

*The crows and choughs that wing the midway air
Show scarce so gross as beetles: half way down
Hangs one that gathers samphire, dreadful trade!*

Caergybi 13 Medi 1750 "Wfft i'r arian a dalasoch am helcyd [hel, casglu] y corn carw môr yna ! A villainous place indeed! Gadewch iddo, cynt y cyferfydd dau ddyn na dau fynydd. *If the liquor about the sampier turns moldy, you must boil strong pickle, viz., salt and water, and add when it's a little cold the same quantity of white wine vinegar, so cover the plant with the liquor ; we eat 'em sometimes chopt small and mixt with melted butter with mutton, which is seldom eaten here without 'em. Sometimes brought to the table upon a saucer and chopt by the eater as you do capers or other pickles; if you design to keep 'em long you should pour some melted suet upon 'em to keep off the air*". (llythyr oddiwrth William Morris at ei frawd R)

On these rocks [Pen y Gogarth, Llandudno] which extend entirely along the end of the cape, the samphire Crithmum maritimum is found in considerable quantity. It is collected by the inhabitants of the adjacent parishes both for home use and for sale. Ffynhonnell = Y Parch. E. Bingley 1814.

Gwefannau o ddiddordeb

Tywydd

<http://llansadwrn-wx.co.uk>

<http://theweatheroutlook.com/twodata/dathistcharts.aspx>

Cerrig hanesyddol

<http://www.megalithics.co.uk>

Blodau

<http://www.irishwildflowers.ie>

.....mwy tro nesa'



Llyrllys : Llysieuyn o'r tylwyth *Salicornia* sy'n tyfu ar lan y môr. Defnyddiwyd y gair gyntaf yn *Welsh Botany* 1813.

Enwir y llyrllys hefyd yn samphire ac fe geir samffer yn y Gymraeg am y *Salicornia* a Corn carw'r môr. Mae'r enw glasswort yn deillio o'r arfer o wneud gwydr (a sebon) ohonno gan mor gyfoethog o tywynau halen ydyw.

Planhigyn yr halwyndir sydd yn tyfu ar hyd traeth Llanfairfechan. Mae Clifton Hughes o'r pentre hwnnw yn cofio ei fam yn "blansho" rhain mewn sosban i'w defnyddio fel salad.



Yn aml, yn ei dymor, mi gewch brynnu'r llyrllys ar y stondin bysgod ym marchnad Caerdydd. Ni ddylid ei gasglu tan ar ôl y diwrnod hwyaf, a'r planhigion gorau yw'r rhai, medde nhw, sydd wedi eu "golchi gan bob llanw". Mae'r samffer yn cael ei ystyried yn fwyfwy amheuthun - cafodd le anrhydeddus ymhlith danteithion brewcwast priodasol Charles a Diana!

Gwefan Gymraeg fydd Llên Natur a fydd yn mynd allan i'r byd rhyngwladol. Mae croeso felly i bob math o gofnodion perthnasol yn eu hiaith wreiddiol, boed, estron hynafol neu iaith pob dydd. Mae'n bwysig cadw at y gwreiddiol ymhob ffordd. Mae pob cofnod yn adlewyrchu cymeriad y person yn ogystal a'r digwyddiad naturiol. Cyfieithiwyd neu droswych ar pob cyfrif ond peidiwch a newid y gwreiddiol.